RHIFYN
ISSUE
29
04.09.20

Llais Llantrisant

GOFAL PLANT CYN AC AR ÔL YSGOL
BEFORE AND AFTER SCHOOL CHILDCARE

Ni fydd y cyfleusterau hyn yn ail-ddechrau tan o leiaf Medi 14eg. (Manylion cyswyllt ar dudalen 2)

These facilities will not recommence until at least September 14th. (Contact details on page 2)

CLWB BRECWAST RCT
RCT BREAKFAST CLUB

Os oes angen lle arnoch yn y clwb brecwast rhad ac am ddim sy'n dechrau am 8:10 yb, cofiwch gwblhau'r ffurflen a anfonwyd atoch ar 30.08.20 trwy neges destun ac ebost. Mae copi fan hyn. Cofiwch fod cyfyngiadau niferoedd y tymor hwn, wrth reswm.

If you require a place in the free breakfast club which starts at 8:10 am each morning, remember to complete the online form which you received by text and email on 30.08.20. There is a copy here. Please remember spaces are limited this term due to social distancing measures.

GOFALWR NEWYDD
NEW CARETAKER

Yn ystod gwyliau'r Haf, penodwyd Gofalwr newydd i'r ysgol. Croeso cynnes i Mr Christian Cox atom a gobeithio y bydd yn ymgartrefu yn yr ysgol. Hefyd, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i Miss Shannice Powell a Mrs Lauren Jones am gamu i'r adwy a chymryd y rôl yma ymlaen wedi i'n Gofalwr blaenorol, Mr Lyndon Price, ymddeol. Roedd yr ysgol fel pin mewn papur o dan eu gofal nhw!

During the Summer holidays, we appointed a new school Caretaker. We should like to welcome Mr Christian Cox to school and hope he settles in well. Also, I should like to thank Miss Shannice Powell and Mrs Lauren Jones for stepping into the breach and taking on this role following our previous Caretaker, Mr Lyndon Price's retirement last year. School was like a pin in paper under their care!



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

01.09.20 - Staff yn Dychwelyd
Staff Return
03.09.20 - 50% o'r disgyblion yn dychwelyd (A i J)
50% of pupils return (A to J)
04.09.20 - 50% o'r disgyblion yn dychwelyd (K to Z)
50% of pupils return (K to Z)
07.09.20 - Pob plentyn yn dychwelyd - pob lwc!
All children return - good luck!
23.10.20 - Diwrnod ola'r hanner tymor cyntaf
Last day of first half term

CROESO NÔL
WELCOME BACK



Wel, am ddau ddiwrnod hyfryd! Braf iawn oedd cael croesawu ein holl ffrindiau nôl! Cofiwch fwrw golwg dros y llythyr pwysig hwn gan fod tipyn o amser wedi mynd heibio ers i ni ei anfon at bawb! Hefyd, dyma i chi ddolen i dudalen ddefnyddiol ar wefan RCT. Un peth sy'n sicr, ni fydd yr ysgol yr un peth am sbel hir ond bydd pob aelod o staff yn ymdrechu i wneud y profiad o ddychwelyd mor hwylus ag sy'n bosibl.

Well, what a great two days so far! It was great to welcome all our frinds back to school. Remember to have a look at this important letter as it's been a while since we sent it out! Also, here is a link to a handy information page on the RCT website. One thing is sure, school won't be quite the same for a while yet but every member of staff will endeavour to ensure that the process of returning is as smooth as possible.

SALWCH CYFFREDINOL
GENERAL ILLNESS

Yn unol â pholisi'r Awdurod Lleol, gofynnir i chi ffonio'r ysgol a gadael neges ar y system awtomatig i gofnodi absenoldeb plentyn. Gofynnir i rieni wneud hyn bob dydd y bydd plentyn yn dost, os gwelwch yn dda. Os na fydd yr ysgol yn derbyn neges, cewch neges destun yn gofyn i chi gysylltu â'r ysgol. Os bydd plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr, cofiwch ddod â hi/fe at y drws rhag ofn nad oes aelod o staff wrth y ddesg. Hefyd, mae angen llofnodi plant hwyr i mewn, os gwelwch yn dda.

Gwybodaeth bellach ar wefan yr ysgol fan hyn.

In line with Local Authority policy, you are asked to telephone school and leave a message on the automated service to report an absence. Parents are kindly asked to do this each day of an absence, please. If school does not receive a message, please expect a text message asking you to contact us. Should any child arrive late, please remember to accompany them to the front door should there be no member of staff at the front desk. Also, latecomers need to be signed in, please.
Further information on the school website here.

APWYNTIADAU
APPOINTMENTS

Yn unol â pholisi'r Awdurod Lleol, gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth os bydd plentyn ag apwyntiad meddygol ac yn colli amser ysgol, os gwelwch yn dda. Mae'r dystiolaeth hon yn cael ei mewnbynnu i'n systemau cofrestru ar gyfer ein Swyddog Presenoldeb a Lles pan ddaw i fonitro presenoldeb y plant.

In line with Local Authority policy, you are asked to provide the school office with evidence of any medical appointments during school time, please. This evidence is entered into our resgistration system for use by our Attendance and Wellbeing Officer when she visits to monitor all children's attendance.

MANYLION CYSWLLT
CONTACT DETAILS

Byddwn yn gofyn i chi ddiweddaru eich manylion cysywllt yr hanner tymor hwn felly cadwch eich llygad ar agor am ffurflen casglu data yn eich ebost. Os ydych yn amau nad yw'ch manylion cywir gennym, cysylltwch trwy ebost wrth glicio ar yr amlen isod er mwyn eu diweddaru.

We shall be asking you to update your contact details this half term so keep an eye open for a Data Collection form in your email. If you suspect we do not hold current and correct contact details, click the envelope below to email updated details.

APP YR YSGOL
THE SCHOOL APP

Erbyn hyn, mae rhan fwyaf o gymuned yr ysgol wedi lawrlwytho'r APP. Cofiwch, os nad ydych wedi gwneud hyn mae perygl i chi golli negeseuon pwysig. Cliciwch ar yr eiconau isod i lawrlwytho'r App. Cofiwch fwrw golwg ar galendr y wefan, eich ebost ac adran RHIENI y wefan yn rheolaidd. Ni fyddwn yn derbyn cyfeiriadau ebost gwaith o hyn ymlaen gan nad oes rheolaeth lawn gennych dros y cyfrifon hyn. Byddwn mewn cysylltiad i ofyn am gyfeiriad ebost personol os oes angen.

By now, the majority of the school community have downloaded the APP. Remember, if you haven't done this you are most likely missing important messages. Click on the icons below to download the App. Remember to look at the school website calendar and PARENTS section and your email regularly. We shall no longer accept work email addresses to contact parents since it is not always possible to have full control over these accounts in regards to spam blocking etc. We shall be in touch to ask for personal email addresses if necessary.

Apple

GET IT ON Google Play



Cofiwch ymweld â / *Remember to visit:* **www.yggglantrisant.cymru**

ALERGEDDAU A BWYDYDD - I'CH ATGOFFA
ALLERGIES AND FOOD - A REMINDER









Mae nifer o blant yn yr ysgol ar hyn o bryd sydd ag alergeddau difrifol tuag at gnau, megis: cnau daear, menyn pysgnau, pecanau, cnau Ffrengig, olew cnau a chyflasynnau cnau. Gallai cyffwrdd neu fwyta rhai o'r eitemau hyn achosi adwaith difrifol. Er mwyn diogelwch y disgyblion hyn, gofynnir yn garedig unwaith eto i rieni osgoi anfon bwydydd sy'n cynnwys cnau i'r ysgol ar gyfer ciniawau pecyn a byrbrydau amser chwarae, os gwelwch yn dda. Mae hyn yn cynnwys bwydydd fel 'Nutella'.

Cofiwch, hefyd, i dorri grawnwin, llus, tomatos bach ac ati yn eu hanner ar eu hyd, os gwelwch yn dda, gan fod plant yn tagu'n hawdd ar y ffrwythau hyn. Diolch yn fawr ymlaen llaw am eich cydweithrediad. Mae hyn yn holl bwysig y tymor hwn gan ein bod yn annog i bawb ddod â chinio pecyn i'r ysgol, os yn bosibl, o dan yr amgylchiadau presennol.

Currently, there are a number of children in school who have a severe, life-threatening allergy to nuts including: peanuts, peanut butter, pecans, walnuts, nut oils and nut flavourings etc. Touching or eating these items may provoke a severe allergic reaction. For the safety of these pupils, we once again kindly ask that parents do not send any food containing these items to school for a snack or in packed lunches. This also includes foodstuffs such as 'Nutella'.

Also, please remember to cut grapes, blueberries, small tomatoes etc. in half, lengthways as children can quite easily choke on these fruits. Thank you in advance for your cooperation. This is essential this term and under the current conditions since we are encouraging pupils to bring packed lunches to school where possible.

CLYBIAU CYN AC AR ÔL YSGOL
BEFORE AND AFTER SCHOOL CLUBS

Mae'r ystod o glybiau carco cyn ac ar ôl ysgol a chlwb brecwast yn cael eu cynnal ar safle'r ysgol. Cwmniau allanol neu RCT sy'n darparu'r clybiau hyn. Os hoffech gofrestru am le yn un o'r clybiau hyn, gweler manylion cyswllt y clybiau isod. Mae trafodaethau ar hyn o bryd ynghylch ail-agor y darpariaethau hyn.

A range of before and after school care clubs as well as a free breakfast club are held on the school site. These clubs are offered by private, external providers or RCT. Should you wish to register for a place in any of these clubs, please see contact details below. There are currently ongoing discussions to arrange the safe re-opening of these provisions.

Clwb Brecwast cyfrwng Cymraeg RCT (am ddim)
RCT Welsh medium Breakfast Club (free)
Neuadd yr Ysgol / *School Hall*
8:10 yb / *am* - **8:50 yb** / *am* **(drysau yn cau am 8:30 yb /** *doors close at 8:30 am***)**
Mrs Lauren Jones - 01443 237837

Clwb Brecwast Honeybeez (cyfrwng Saesneg - am ffi)
Honeybeez Breakfast Club (English medium - fees)
Ystafell Gymunedol yr Ysgol / *School Community Room*
7:30 yb / *am* - **8:50 yb** / am
Mrs Angela Griffiths - 07989 253923
Angela-1962@hotmail.co.uk

Clwb Carco cyfrwng Cymraeg (am ffi)
Welsh medium 'Clwb Carco' (chargeable)
Ystafell Gymunedol yr Ysgol / *School Community Room*
3:45 yp / *pm* - **5:30 pm** / *pm*
Mr Trystan Francis - 07866 594744
trystan@clwbcarco.com

Clwb ar ôl Ysgol Honeybeez (Saesneg - am ffi)
Honeybeez After School Club (English - chargeable)
Plant yn cael eu cludo o'r ysgol i bentref Llantrisant / *Children transported to Llantrisant village*
3:45 yp / *pm* - **5:30 pm** / *pm*
Mrs Angela Griffiths - 07989 253923
Angela-1962@hotmail.co.uk

CODI ARIAN
RAISING MONEY

Llongyfarchiadau mawr, a da iawn wir, i HG am ddringo Pen-y-fan yn ddiweddar i godi arian at @Velindre er cof ei fodryb, a chyn aelod o staff, Miss Rhian Griffiths. Dyna i chi gamp a hanner, HG!

Congratulations and well done to HG for climbing Pen-y-fan recently to raise funds for @Velindre in memory of his Aunty, and former member of staff, Miss Rhian Griffiths. What a task, HG!



CERBYDAU
VEHICLES

Hoffem atgoffa pawb ni chaniateir unrhyw gerbydau heb eu hawdurdodi i yrru trwy / parcio ym mae bysiau'r ysgol. Gofynnir yn garedig i chi sicrhau fod pob aelod o'r teulu yn derbyn y neges hon, os gwelwch yn dda, gan nad ydynt yn debygol o weld y cylchlythyr yma, efallai. Yn yr un modd, gofynnir i ymwelwyr barcio ar yr heol y tu fas i'r ysgol yn hytrach na gyrru i mewn a pharcio ym maes parcio staff yr ysgol, os gwelwch yn dda. Gofynnir hyn i sicrhau diogelwch ar safle'r ysgol. Hoffem ddiolch i bawb sy'n ein helpu eisoes trwy ddilyn y canllawiau hyn.

We should like to remind everyone that no unauthorised vehicles are permitted to drive through or park in the school bus bay. Please pass this message on to family members should they not see this newsletter. By the same token, visitors are asked to park on the road outside school rather than drive into and park in the staff car-park, please. We ask this to ensure safety on the school site. We should like to thank everyone who already helps us by following these requests.




CINIAWAU YSGOL
SCHOOL LUNCHES

Oherwydd canllawiau diogelwch COVID19, gwerthfawrogwn eich cymorth i ddarparu cinio pecyn i'ch plant fwyta yn y dosbarth yn fawr iawn gan fod neuadd yr ysgol yn fach a byddai cael pob grŵp yn y neuadd, ar wahân, yn cymryd ymhell dros yr awr a hanner sydd gennym! Er mwyn gallu trefnu hyn, o ran y nifer o blant a faint o staff fyddai angen i oruchwylio, pan fydd unrhyw blentyn yn cael cinio ysgol, bydd disgwyl iddynt gael cinio ysgol am yr wythnos os gwelwch yn dda. Bydd hyn yn caniatau i ni drefnu'r neuadd a'r staffio am yr wythnos yn seiliedig ar niferoedd. O ddydd Llun, Medi'r 7fed ymlaen, bydd y gegin mewn sefyllfa well i gynnig ciniawau ysgol i'r plant fydd eu heisiau gan fod bocsys bwyd ar gael i'r prydau bwyd gael eu cludo i'r dosbarthiadau. Felly, croeso i'r plant ddechrau cael cinio ysgol os oes angen.

Due to the current COVID19 safety measures, we very much appreciate your support in providing the children with a packed lunch to eat in class since our school hall is quite small and accommodating each class bubble separately would take far longer than the 1.5 hours we currently have! In order to organise lunchtime in an effective and safe manner and to arrange the staffing for this process, should it be necessary for any child to take a school lunch we ask that a lunch is taken each day for the week, please. This will enable us to make suitable staffing and safe seating arrangements for the week based on lunch orders each Monday morning. From Monday, September 7th onwards, the kitchen will be in a better position to provide school lunches for the children who would like them as we now have recyclable lunch boxes for meals to be taken to classrooms. So, the children are more than welcome to have a school lunch if necessary.








TALIADAU AR-LEIN - YSGOL DDI-ARIAN
ONLINE PAYMENTS - CASHLESS SCHOOL

Ers sbel, bellach, mae modd talu am giniawau a digwyddiadau ar-lein er mwyn hwyluso systemau yn yr ysgol a diogelu nad yw'ch arian yn mynd ar goll rhwng y cartref, y dosbarth a'r swyddfa! O fis Medi ymlaen, ni fydd yr ysgol yn derbyn arian / sieciau yn yr ysgol er mwyn ateb gofynion diogelwch COVID19. Felly, os nad ydych wedi derbyn, neu wedi colli, rhif unigryw er mwyn talu trwy system talu ar-lein RCT, ebostiwch admin.ygggllantrisant@rctcbc.gov.uk os gwelwch yn dda.

For a while now, it has been possible to pay for school lunches and events online which greatly helps school systems and ensures your money doesn't go missing between home, the classroom and the school office! From September onwards, school will no longer accept money / cheques in line with COVID19 safety measures. So, if you have not received or have mislaid your unique reference number to use the online facility, email admin.ygggllantrisant@rctcbc.gov.uk



CYFATHREBU
COMMUNICATION

Cofiwch fwrw golwg ar wefan yr ysgol yn rheolaidd i sicrhau nad ydych yn colli llythyron pwysig! Bydd unrhyw lythyron yn cael eu hebostio at bawb hefyd. Yn yr un modd, cofiwch edrych ar APP yr ysgol yn rheolaidd i sicrhau ei fod 'ar ddihun' ac yn derbyn negeseuon.

Remember to regularly visit the school website to ensure you don't miss any important letters! Any correspondence is also emailed out to everyone. By the same token, remember to look at the school APP now and again to ensure it is 'awake' and receiving messages.

IECHYD, LLES & ADDYSG GORFFOROL
HEALTH, WELLBEING AND PE

DIWRNOD / *DAY*	**DOSBARTH** / *CLASS*
Dydd Llun / *Monday*	*5 & 10*
Dydd Mawrth / *Tuesday*	*1 & 9*
Dydd Mercher / *Wednesday*	*4 & 6*
Dydd Iau / *Thursday*	*3 & 8*
Dydd Gwener / *Friday*	*2 & 7*

Dilynwch ni ar / *Follow us on:* **@YGGGLlantrisant**